# EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

**Rhif 124 – Llefaru Unigol Bl 3 a 4**
**Y Gornel Dywyll – Tudur Dylan Jones**

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

## Y GORNEL DYWYLL

Mae gen i gornel dywyll fach
  Yng nghefn fy stafell wely
Dim ond y fi sy'n mynd i'r lle
  Achos dim ond y fi sy'n gallu.

Mae'r gornel yma weithiau'n troi
  Yn unrhyw beth rwyf eisiau,
Trwy gau fy llygaid bach yn dynn
  A meddwl am y gorau.

Mae weithiau'n llong sy'n croesi'r môr
  A chyrraedd traeth Awstralia,
Neu weithiau'n gar yn mynd ar ras,
  A fi yn dod yn gynta'.

Unwaith ro'n i'n frenin mawr,
  Ac ar fy mhen roedd coron,
Ac yna ro'n i'n sgorio cais
  A Chymru'n curo'r Saeson.

Lle bynnag rwyf yn mynd ar daith,
  I'r gogledd neu i'r de,
Rwy'n gwibio'n ôl pan glywaf Mam
  Yn gweiddi, "Amser te!"

URDD GOBAITH CYMRU

*Gyda chaniatâd Tudur Dylan Jones*